

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 6ed o HYDREF 2020 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, K.Jones, C.Larsen,
E.Lovgreen, J.W.Parry, K.Richards, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas,
C.Williams

1. Clwb Cymunedol Caernarfon

Yn dilyn cais gan y Cyngor Llawn cafwyd cyflwyniad ar Glwb Cymunedol Caernarfon gan Sion Bryn Roberts, yr Arweinydd Gwaith Cymunedol Ieuenctid.

Roedd y cyflwyniad wedi ei rannu yn ddau ran, sef ar waith y flwyddyn diwethaf ac ar waith y flwyddyn yma.

Nodwyd:

Y Flwyddyn Ddiwethaf

- (1) Bod aelodau wedi bod yn bryderus o ran y niferoedd oedd wedi mynychu'r Clwb. Roedd newid y noson o nos Wener wedi golygu bod llai yn mynychu, ond bod mwy yn cymryd rhan.
- (2) Bod dau aelod o staff, ag roedd aelod o staff ychwanegol yn gwneud y niferoedd i fyny.
- (3) Roedd bechgyn wedi ei gweld yn anodd heb aelod o staff gwryw, fyddai'n gallu arwain ar weithgareddau addas i fechgyn, ac y dylid edrych ar lenwi'r bwloch yma.
- (4) Bod aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant, er enghraifft gan yr NSPCC.

Y Flwyddyn Yma

- (1) Nad oedd gwaith wyneb yn wyneb yn digwydd, a bod pob gweithgaredd yn rhithiol, gan ddechrau ar y 7fed o Hydref.
- (2) Bod gweithgareddau hefyd am gael eu trefnu gan aelod o staff wedi ei leoli mewn rhai ysgolion.
- (3) Bod llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o gyfryngau cymdeithasol fel Instagram a TikTok.
- (4) Bod pynciau llosg yn cael eu trafod.

- (5) Y byddai'n gadael i'r aelodau wybod am unrhyw ddatblygiadau trwy'r Clerc.

Nodwyd y dylai aelodau basio manylion cyswllt pobl allasai weithio efo Zoom, er mwyn cynorthwyo'r Clwb, i'r Clerc er mwyn iddo basio'r manylion ymlaen i Bryn.

Penderfynwyd, gan fod y Clwb yn cynnig darpariaeth dda o dan yr amgylchiadau, bod y Cyngor Tref yn dymuno parhau i gefnogi.

2. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr D.L.Jones, B.Owen, W.R.Owen, R.Thomas,

3. Cyhoeddiadau'r Maer

(1) Cystadleuaeth Garddio

Nododd y Maer bod y cwpanau a'r gwobrau wedi eu cyflwyno ar yr 2il o Hydref, a diolchodd i'r Cyngorwyr Eiriona Hughes a Maria Sarnacki am fynd â'r cwpanau o amgylch y dref.

4. Datgan Buddiant Personol

Eitem 14 – Ymddiriedolaeth yr Harbwr – Y Cyngorwyr C.Larsen ac I.C.Thomas. Bu iddynt adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Eitem 15 – Rheilffordd Afonwen i Fangor – Y Cyngorwydd W.L.Davies. Bu iddo adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

5. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

(1) Sgrîn Fawr

Nododd y Clerc:

- (1) Bod y Pwyllgor Adloniant, yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fedi, wedi gofyn wrtho wneud ymholiadau i weld os y gellir cael y Sgrîn fawr am 2 benwythnos eleni yn hytrach nag un, sef penwythnos y 13eg / 14eg o Ragfyr a phenwythnos yr 20fed / 21ain o Ragfyr.
- (2) Bod y pris am un penwythnos yn £2,350 + TAW, sef yr un pris a'r llynedd. Byddai cael y sgrîn y penwythnos cynt yr un gost eto.
- (3) Roedd cwmni MAD Cyf. yn awyddus i wybod o fewn pythefnos nesaf beth fyddai dymuniad y Cyngor, ond roedd peth hyblygrwydd yn hyn o beth.
- (4) Yn ogystal roedd y cwmni yn cynnig gosod "speakers" ar y bracedi sy'n dal coed / fflagiau i fyny ar y siopau fel ag oedd yn cael ei wneud blynnyddoedd yn ôl i allu chwarae cerddoriaeth Nadolig gyda'r nos adeg siopa hwyr.

Penderfynwyd:

- (1) **Gofyn i'r Clerc gysylltu efo'r Heddlu (i weld eu barn ar osod Sgrîn Fawr mewn cyfnod o bandemig) ac efo ysgolion (i weld os oeddynt yn gallu cyfrannu tuag at gynnwys y Sgrîn Fawr mewn cyfnod o bandemig) fel cam cyntaf.**
- (2) **Gofyn i'r Clerc gysylltu efo cwmnïau teledu lleol i weld os oedd hen "footage" y gellid ei ddefnyddio.**
- (3) **Bod y Cyngor yn cefnogi ehangu defnydd y Sgrîn Fawr eleni, boed am ddau benwythnos neu am wythnos ar ei hyd.**

(2) Rheolau Sefydlog o'r neilltu

Gofynnodd y Clerc os oedd angen cael penderfyniad / cofnod o ran yr amserlen, a nodwyd nad oedd angen (gan fod y Rheolau Sefydlog wedi cael eu rhoi o'r neilltu i gyflawni gwaith yn y dref yn y Cyngor Llawn ar y 6ed o Awst, a'u bod yn dod yn ôl i rym wedi'r cyfarfod).

(3) Offer Cyfrifiadurol

Nododd y Clerc bod yr offer cyfrifiadurol yn y swyddfa yn araf ac roedd hyn yn gallu bod yn rhwystredig.

Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i edrych ar offer TG newydd i'r swyddfa, a holi o ran cyflymder y We.

(4) Taflen i fusnesau

Nodwyd fod cynhyrchu taflen i fusnesau wedi bod yn Rybudd o Gynnig yn y cyfarfod diwethaf, ond roedd y cynigydd, y Cynghorydd Eleri Lovgreen, wedi gorfod gadael y cyfarfod.

Penderfynwyd helpu busnesau'r dre drwy adael iddynt wybod pa gymorth sydd ar gael iddynt drwy gynhyrchu taflen wybodaeth gryno yn rhestru'r ffynonellau cymorth sydd ar gael. Gallai'r daflen gael ei dosbarthu gan y cynghorwyr, er mwyn dangos cefnogaeth y Cyngor i fusnesau'r dre yn y cyfnod anodd hwn.

(5) Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

Nodwyd fod cais wedi dod i law gan y Swyddog Addysg yn nodi eu bod yn ceisio cael grant i wneud ychydig o waith ar yr enwau ar y cofgolofn a hel lluniau. Efallai y gellid creu rhywbeth rhyngweithiol, neu gael artist i weithio gydag ysgol(ion).

Gofynnir am gefnogaeth i'r cais.

Penderfynwyd, gan fod y cais i fod i fewn erbyn y 14eg o Hydref, gofyn i'r Clerc gysylltu efo'r Swyddog Addysg i ddatgan bod cefnogaeth i'r cais.

6. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 1af o Fedi 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

ii. Pwyllgor Adloniant – 8fed o Fedi 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

iii. Pwyllgor Gwaith – 22ain o Fedi 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

iv. Pwyllgor Personél– 28ain o Fedi 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir, gan ddatgan bod y Pwyllgor Personél am greu Model Protocol ar gyfer Datrysiadau Lleol ar gyfer y Cyngor Tref, a'i gyhoeddi maes o law.

7. Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu.

8. Cysoni Cyfrifon

Nododd yn Clerc bod £25,000 ychwanegol wedi dod i law o ran y Grant Busnes, ac roedd yn awgrymu gwario cyfran helaeth o hwn ar yr adeilad.

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

9. Y Drefn Gwyno

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn amlinellu diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Drefn Gwyno, yn dilyn derbyn arweiniad gan y Swyddog Monitro.

Nodwyd:

- (1) Y derbyniwyd cyfarwyddyd gan Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd fod y ddarpariaeth yn y Rheolau Sefydlog a'r Drefn Gwynion, sydd wedi cael eu mabwysiadu gan y Cyngor Tref, ynglŷn a chwynion torri Cod Ymddygiad yn anghywir.
- (2) Cyfeirir yn benodol at gymal 3.2 yng Ngweithdrefn Gwyno'r Cyngor, sef:

“3.2. cwynion yn erbyn cynghorwyr. Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn delio â chwynion a wneir yn erbyn cynghorwyr, ac os bydd y cyngor yn cael cwyn yn erbyn cynghorydd, caiff ei chyfeirio at Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd. Mae modd cael

gwybodaeth bellach ynghylch y broses o ddelio gyda chwynion yn erbyn cynghorwyr gan Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.”

- (3) Ymddengys bod y rhain yn lled seiliedig ar ddarpariaethau Lloegr, sydd yn dra gwahanol ac yn rhoi rôl fwy uniongyrchol i Gyngor Sir a'r Swyddog Monitro yn nhrefniadau Cynghorau Plwyf (Lloegr).
- (4) Yng Nghymru mae cwynion torri Cod Ymddygiad Cyngor Tref / Cymuned yn gallu mynd i un o ddau o lefydd:
 - At yr Ombwdsman sydd yn gweinyddu trefn gwynion ffurfiol (nad oes moi gyffelyb yn Lloegr).
 - Trefn ddatrys mewnol (aelod ar aelod / swyddog) ac mae gan Unllais Cymru drefn model y gellir ei fabwysiadu ac, fel cam cyntaf, mae hwn wedi ei roi gerbron y Pwyllgor Personél yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Fedi.
- (5) Nid oes darpariaeth ar gyfer cyfeirio cwynion at Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd nac at y Pwyllgor Safonau drwy drefniadau amgen. Mae angen hysbysu'r Swyddog Monitro o unrhyw gwyn yn ôl y Cod. Fodd bynnag (a gellir gweld hyn yn arweiniad yr Ombwdsman ar y Côt Ymddygiad) er gwybodaeth mae hysbysiad o'r fath.
- (6) Gall y Swyddog Monitro gynghori cwynwyr ar y drefn ond ni ddylid cyfeirio cwynion at y Swyddog Monitro nag Uned Gyfreithiol y Cyngor.
- (7) Canlyniad hyn yw y gofynnwyd i mi adolygu'r trefniadau sydd mewn lle.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Drefn Gwyno ddiwygiedig.

10. Rheolau Sefydlog

Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Rheolau Sefydlog.

Nododd y Clerc nad oedd llawer o newidiadau, yn bennaf tacluso a chysoni o ran y Drefn Gwyno.

Penderfynwyd:

- (1) **Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig.**
- (2) **Gofyn i'r Clerc gysylltu gydag Unllais Cymru i ofyn os oedd protocol o ran ymddygiad mewn cyfarfodydd "Zoom".**
- (3) **Gofyn i'r Clerc gysoni rhif 27 rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg.**

11. Gwersylla Anghyfreithlon

Trafodwyd Gwersylla Anghyfreithlon mewn Rhybudd o Gynnig yn y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor Llawn ar y 1af o Fedi.

Cyflwynwyd ymateb Cyngor Gwynedd, o ran y llythyr anfonwyd atynt ar y pwnc, yn dilyn y trafodaethau hyn.

Nodwyd fod yr ymateb yn un gwan, gan nad oedd yn cynnig ateb pendant i'r broblem, a bod angen iddynt gymryd sylwadau'r Cyngor Tref i ystyriaeth.

Nodwyd nad oedd arwyddion yn ddigonol, ac y gellid ystyried llinellau melyn neu folards.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu gyda chynghorau Sir Benfro a Cheredigion (lle roedd problemau yn bodoli, ond roedd y cynghorau yn broactif i'w datrys) a rhaedru beth oedd yn digwydd yn y Cynghorau hyn i Gyngor Gwynedd, yn cynnwys y ddeddfwriaeth oedd yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r gwaith.

12. Cysgodfannau Bysus

Cyflwynwyd:

- (a) Awdit ar Gysgodfannau Bysus a gynhaliwyd yn ddiweddar.
- (b) O ran gwaith atgyweirio, cyflwynwyd argymhelliad y dylid blaenoriaethu'r cysgodfannau ger Asda, Morrisons a Tesco.

Penderfynwyd:

- (1) Derbyn yr Awdit a datgan, o ran gwaith atgyweirio, y dylid blaenoriaethu'r cysgodfannau ger Asda, Morrisons a Tesco.**
- (2) Yn dilyn hyn dylid cael rhaglen waith ar gyfer atgyweirio'r gweddill o'r Cysgodfannau sy'n eiddo i'r Cyngor Tref dros y flwyddyn nesaf.**

13. Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2021/22

Cyflwynwyd gwybodaeth fod Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2021/22 wedi ei gyhoeddi, a gofynnir am sylwadau erbyn y 23ain o Dachwedd 2020.

Penderfynwyd gofyn i aelodau anfon unrhyw sylwadau at y Clerc mewn da bryd er mwyn gallu eu hanfon i mewn erbyn y 23ain o Dachwedd 2020.

14. Ymddiriedolaeth yr Harbwr

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Ymddiriedolaeth yr Harbwr, a gofynnir am ganiatâd i drafod y cynnwys yn y Pwyllgor Gwaith.

Penderfynwyd cyfeirio'r mater i'w drafod yn y Pwyllgor Gwaith.

15. Rheilffordd Afonwen i Fangor

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Trawslink Cymru, yn gwahodd aelodau o'r Cyngor i gyfarfod "zoom" ar y 29ain o Hydref.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu efo Trawslink Cymru i'w hysbysu fod gan y Cyngorwyr W.Tudor Owen, Stuart Sage, Maria Sarnacki a Ioan C.Thomas ddi-ddordeb mewn mynychu'r cyfarfod.

16. Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Cyflwynwyd gwybodaeth fod y ddatganiad ysgrifenedig gan yr Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar gam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ar gael yn:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cam-dau-cynllun-gweithredur-rhaglen-amrywiaeth-mewn-democratiaeth>

Penderfynwyd nodi'r uchod.

17. Rhybudd o Gynnig

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cyngorydd Ann Hopcyn:

“Mae Cyngor Tref Caernarfon yn cefnogi safiad Cyngor Tref Nefyn yn erbyn amlhad tai gwyliau yn eu hardal.”

Penderfynwyd:

- (1) Bod Cyngor Tref Caernarfon yn cefnogi safiad Cyngor Tref Nefyn yn erbyn amlhad tai gwyliau yn eu hardal.**
- (2) Y dylid ategu'r sefyllfa yng Nghaernarfon, a lleoedd eraill, lle mae tai fforddiadwy tu hwnt i gyrraedd pobl leol.**

18. Meicrodonau

Nodi fod Cwrw Da Cyf wedi derbyn £160 o'r Gronfa Argyfwng i brynu meicrodonau, er mwyn i staff y Gwasanaeth Iechyd eu defnyddio yn ystod yr Argyfwng Covid-19. Erbyn hyn mae 2 feicrodon wedi eu dychwelyd i'r Cyngor, a gofynnir am farn yr aelodau o ran lle (neu i bwy) y dylid rhoi'r meicrodonau.

Penderfynwyd cadw un meicrodon yn y Cyngor Tref, a rhoi'r llall i GISDA (ni fu i'r Cadeirydd bleidleisio gan ei fod yn aelod o Fwrdd GISDA).

19. Cwestiynau

Y Cyngorydd Ann Hopcyn:

Be ddylid ei wneud os dowch ar draws nodwydd neu chwistrell cyffuriau?

Nodwyd bod y broblem ar gynnydd, ac y byddai'r Clerc yn anfon linc i'r aelodau o ran sut i adrodd ar gwyn i Gyngor Gwynedd. Roedd hyn dal yn gadael bwlch ar benwythnosau.

Roedd angen eglurder o ran pwy i gysylltu efo.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.55 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad